

Yr amserlen ar gyfer ystyried Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)

Ar 18 Gorffennaf 2008, cyflwynwyd Mesur arfaethedig Aelod, 'Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu)', gerbron y Cynulliad.

Ar 26 Tachwedd 2008, penderfynodd y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 21.1, sefydlu pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, er mwyn ystyried cynigion deddfwriaethol a gaiff eu cyfeirio ato gan y Pwyllgor Busnes.

Ar 2 Rhagfyr 2008, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 23.21, i gyfeirio'r Mesur at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 er mwyn ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac i baratoi adroddiad arno.

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, mae'r Pwyllgor Busnes wedi pennu amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac wedi cytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad o fewn 13 wythnos eistedd i ddyddiad ei gyfarfod cyntaf.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes Rhagfyr 2008